**TGAU**

3020U20-1D

S24-3020U20-1D

**DYDD MERCHER, 24 EBRILL 2024 – BORE**
***WEDNESDAY, 24 APRIL 2024 – MORNING***

# CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
# *WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2*

## PRAWF D (Diwrnod 3)
## *TEST D (Day 3)*

## CYFATHREBU AG ERAILL
## *COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE*

**COPI'R YMGEISYDD**
***CANDIDATE'S COPY***

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dewiswch **un** dasg.

Cewch hyd at 10 munud i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.**

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*Choose **one** task.*

*You have up to 10 minutes' preparation time.*

*You may make notes and discuss with your partner/group during this time.*

***The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.***

*Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Naill ai

## TASG 1

# HELPU ERAILL

BLE WYT TI'N HELPU ERAILL?

YN Y CARTREF?

YN YR YSGOL?

YN Y GYMUNED?



Mae mam-gu a tad-cu yn byw ar fferm.
Dw i a fy mrawd yn dwlu cael mynd yno i helpu ar y penwythnos. Hoffwn i ffermio ar ôl gadael yr ysgol.
Morgan

Mae fy chwaer ym mlwyddyn 7 yn yr ysgol. Dydy hi ddim yn dda ym mathemateg. Dw i'n ei helpu hi ar ôl y gwersi a gyda gwaith cartref.
Cerys



Dw i'n byw gyda fy mam a fy mrawd bach Dion. Mae Dion yn anabl felly dydy mam ddim yn gallu gweithio. Dw i'n helpu llawer iawn o gwmpas y tŷ – glanhau, golchi dillad, coginio a hefyd yn edrych ar ôl Dion pan mae mam yn siopa.
Josh



**Rhaid i ni helpu yn y gymuned ar gyfer y Bac Cymraeg. Dyma syniadau Mr Parri:**

- **helpu mewn siop elusen**
- **glanhau'r traeth**
- **garddio i'r henoed**
- **mynd â'r ci am dro**
- **helpu yn yr ysgol gynradd**









**FFAIR WANWYN**
**Yn Neuadd yr Ysgol**
**Dydd Iau Ebrill 18fed 6:00 o'r gloch**
**Pob math o stondinau**
**Codi arian at Noddfa**

ELUSENNAU



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Neu

## TASG 2

# DELWEDD – PA MOR BWYSIG?

Dw i’n poeni am fy chwaer Shannon. Mae ganddi hi obsesiwn gyda ‘celebs’ ac eisiau edrych fel y merched o ‘Love Island’! Mae hi’n gwario ei harian i gyd ar ddillad a cholur. Dydy hi ddim yn bwyta llawer er mwyn cadw’n denau a nawr mae hi’n sôn am gael ‘Botox’!
Fflur




Mae fy mrawd yn chwarae o gwmpas o flaen ei ffrindiau. Mae e’n ffŵl achos mae e’n glyfar ac eisiau bod yn feddyg. Weithiau mae e mewn trwbl yn yr ysgol.
Tom



Mae’n gas gen i ddiwrnod dim gwisg ysgol. Mae pawb yn edrych mor smart yn eu dillad drud. Does gen i ddim dillad fel hyn; does gan fy rhieni ddim arian i’w prynu i mi.
Becky

Tyllu'r corff – ‘Ofnadwy ’ ym marn mam-gu. ‘Ffasiynol’ yn fy marn i!

## TATŴS – HYLL NEU HARDD ?





Mae tatŵs gyda rhai o’n athrawon ni – rydych chi’n gallu eu gweld nhw. Dydy mam ddim yn cytuno gyda hyn. Yn ei barn hi dylai athrawon osod esiampl!
Robyn

Ddylai athrawon wisgo gwisg ysgol hefyd?




## BLE RWYT TI’N PRYNU DILLAD?

## YDY LABELI YN BWYSIG?






Trowch y dudalen.
*Turn over.*

Neu

## TASG 3

# CYMRU – GWLAD ARBENNIG



FASWN I BYTH EISIAU
BYW YN UNMAN ARALL!

Beth am hanes
Cymru, y cestyll
a'r Eisteddfodau?

**5 UCHAF CYMRU I MI**

1. **Pobl gyfeillgar**
2. **Yr iaith Gymraeg**
3. **Traethau**
4. **Mynyddoedd**
5. **Timau pêl-droed a rygbi**

Dw i wedi bod ar fy ngwyliau
i Ffrainc, Sbaen a Gwlad Groeg.
Mae'r gwledydd yma yn hardd
iawn ond ddim yn fwy hardd na
Chymru. Un peth sy'n well dramor
yn yr haf – y tywydd!
Fiona

Symudon ni o Loegr i Gymru
pan oeddwn i'n wyth oed a fy
mrawd yn bump. Aeth mam a
dad i wersi Cymraeg yn syth
a dysgodd Ben a fi Gymraeg
yn yr ysgol. Nawr rydyn ni'n
rhugl ac yn siarad Cymraeg
gyda'n gilydd!
Rob



**Haul poeth tramor**

Mae pawb yn gwybod mai
Cymry ydyn ni! Rydyn ni'n
helpu i roi Cymru ar y
map!












Mae ffrind gyda fi yn byw yn Berlin.
Mae hi wrth ei bodd yn dod i Ogledd
Cymru achos mae popeth yma mor
agos. Gallwch chi fynd i'r traeth ac
i'r mynydd mewn un diwrnod!
Simon










Dw i'n byw mewn tref eitha
mawr yng Nghymru. Mae
popeth 'da ni – siopau, tai
bwyta, sinemâu a
chyfleusterau chwaraeon. Er
hyn, hoffwn i fyw mewn
pentref bach tawel ar lan y
môr.
Cerys



**Hoffech chi fyw mewn gwlad arall?**

